CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

NEWSLETTER

SUMMER

04

Providing support for local and global citizenship education in Wales

NEW PROJECT TO HELP YOUNG THINKERS



Our new project will set primary school pupils thinking

CEWC-Cymru is to undertake a year-long project investigating the use of **Philosophy for Children (P4C)** in Wales. We will work with pupils, teachers and local education authorities to consider how critical thinking and philosophical argument can help develop the values outlined in the Personal and Social Education (PSE) Framework.

P4C for PSE is being funded by the Esmée Fairbairn Foundation, and will involve pupils aged 7-11. As well as encouraging young people to think about their values and principles, we intend to enhance teachers' knowledge about P4C, and to create a resource base for P4C which will include lesson plans designed specifically for PSE.

In recent years, P4C has increasingly gained attention across the UK. It promotes focused but imaginative discussion, which may arise from the reading of stories or poems, or from a pupil's account of an experience in school. The goal is to encourage philosophical enquiry within a school, developing pupils' critical thinking skills and moral and social awareness.

CEWC-Cymru is currently seeking to establish partnerships on this project with primary schools and local authorities around Wales. If you wish to become involved in *P4C for PSE*, please get in touch with our Education Officer, Martin Pollard.

FURTHER WORK IN PSE

CEWC-Cymru is one of a number of organisations represented on the **All Wales PSE Network**, which supports PSE provision in both formal and informal education. It promotes good practice, organises conferences and seminars, and encourages active citizenship among young people. Teachers, PSE advisers and other organisations (particularly in north Wales) are encouraged to join the Network. For further information, please contact Graham Davies of Cardiff County Council (029 2087 2752) or Sue Rivers of Bedwas High School (029 2085 9800).

We have also been working with the Institute for Global Ethics, Welsh Assembly Government, WJEC and others to arrange the annual **Four Nations Citizenship Conference**, taking place at the Thistle Hotel, Cardiff from 4 to 6 November 2004. This is the first time that the conference, which involves all the nations of the UK, will take place in Wales. To find out more, contact the Institute for Global Ethics on 020 7486 1954.

PEACE WINS PRIZES

Coedcae School receives its prize

Students at Coedcae School are celebrating after they were named as first prize winners of **Right On 2003-04**, CEWC-Cymru's competition to promote human rights. It is the third award for the Llanelli school's Peace Mala project, which uses a symbolic bracelet to educate about religious and ethnic diversity and to combat prejudice. Second prize was won by Bedwas High School (Caerphilly), while Gwernyfed High School (Brecon) took third prize.

Following the competition, supported by the Wales Public Law and Human Rights Association, the three prize-winning schools showed off their work at a **Right On Conference** at the University of Wales, Swansea on 26 May. The event included further opportunities for 11 to 16 year-olds to learn about human rights, with workshops provided by the Electoral Commission, the University's Department of Law and Amnesty International.

Coedcae's £300 prize money will be spent on making more Peace Malas, to cope with the high demand for the bracelets from Wales and beyond. Visit **www.peacemala.org.uk** to learn more about their project.

YOUNG PEOPLE TACKLE THE FUTURE

People often claim that today's youth is apathetic about what is happening in the world, but two events held in February dispelled that myth. The ***youth for a future world conferences***, organised by CEWC-Cymru and the Welsh Youth Forum on Sustainable Development (WYFSD), saw over 100 young people discussing global issues such as poverty, biodiversity and climate change, and putting forward a plethora of opinions and solutions. We are grateful to organisations such as Christian Aid, the Centre for Alternative Technology and the World Education Centre, Bangor, for providing interactive workshops at the events in Swansea and Rhyl.

WYFSD collated the views expressed at the conferences and presented a summary of these at NRG4SD, the inter-governmental conference on sustainable development which took place in Cardiff in March: proving that young people really can make an impact on the important issues of the day.

BRIEFLY...

CEWC-Cymru organised **Model United Nations** conferences at Caernarfon, Mold, Cwmbran and Barry in March, as well as the **2004 Model National Assembly for Wales** in the Chamber of the Assembly……the Education Officer held an INSET session for Blaenau Gwent primary school teachers, and contributed to the development of **citizenship education resources** by the University of Wales Institute Cardiff and Caerphilly County Borough Council……he also conducted classroom sessions on **human rights** at Bridgend College and Builth Wells High School……

TEL (029) 2022 8549 FAX (029) 2064 0333 E-MAIL cewc@wcia.org.uk www.cewc-cymru.org.uk

NEW CD-ROM AVAILABLE NOW

Your Say: Democracy in Schools and Beyond is a brand new CD-ROM resource, available now from CEWC-Cymru. It includes advice on setting up and running school councils, lesson plans to introduce pupils to democracy, and guidance for those wanting to exercise their democratic rights. To order your copy, please send payment of £13 (CEWC-Cymru members) or £18 (non-members), or e-mail sheiladavies@wcia.org.uk to request a CD-ROM and invoice. This price includes postage costs.

To read more about democracy in schools, go to **www.cewc-cymru.org.uk** and click on *Your Say*.

WALES ON THE WORLD DEBATING STAGE

Four young debaters took to the world stage in February, representing Wales at the **2004 World Schools Debating Championships** in Stuttgart, Germany. In preliminary rounds focusing on topics such as GM foods and the place of religion in state schools, Murtaza Hussain and Will Jefferson (Atlantic College, Llantwit Major), Lewis Turner (Caerleon Comprehensive School) and Harry Thomas (Christ College, Brecon) won four of their debates. This placed them in the last 16 of the competition, where they were defeated by eventual semi-finalists Greece.

CEWC-Cymru thanks Helen Jarman for her work in coaching this year's team. We are also grateful to the Welsh Development Agency, Robert Bosch Ltd., Newport YMCA, Ensinger Ltd. and the debaters' parents and schools, for their financial and other support for the trip.

In May, Harry and Lewis represented Wales at the final of the **English-Speaking Union's International Schools Mace** in London. The competition was won by Scotland.

FORTHCOMING EVENTS

2004 JULIAN HODGE BANK WALES SCHOOLS DEBATING CHAMPIONSHIPS

Julian Hodge Bank

If your students would like to emulate the success of this year's top Welsh debaters, now is their chance. We are pleased to invite schools and colleges to compete in the 15th annual **Wales Schools Debating Championships**, taking place in October and November. Over 50 teams take part in the Championships each year, and the prize couldn't be better for aspiring debaters: the chance to participate in the **2005 World Schools Debating Championships** in Calgary, Canada. For more information, or to obtain an entry form, please contact Martin Pollard at martinpollard@wcia.org.uk.

JOINING THE PLANET

CEWC-Cymru is taking to the road this summer for **Joining the Planet,** our first ever festival of global citizenship. From 6 to 9 July we will visit five different locations in south and north Wales, organising interactive workshops, international simulation events and music, drama and dance activities. Our partners include Small World Theatre, the United Nations Association, African Link Wales and University of Wales College, Newport.

Places are still available at some sessions, so please contact us as soon as possible if you would like to participate. Each day is aimed at a different age group, with at least one workshop available for all ages from 5 to 18.

CEWC-Cymru thanks Julian Hodge Bank and HSBC for their sponsorship of the Championships and Joining the Planet respectively.

CEWC CYMRU

CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

CYLCHLYTHYR

HAF

04

Darparu cefnogaeth i addysg dinasyddiaeth leol a byd-eang yng Nghymru

PROSIECT NEWYDD I GYNORTHWYO MEDDYLWYR IFAINC



Bydd ein prosiect newydd yn golygu meddylfryd newydd i blant ysgolion cynradd

Mae CEWC-Cymru ar fin ymgymryd â phrosiect blwyddyn o hyd a fydd yn ymchwilio i'r defnydd sydd ar **Athroniaeth i Blant (P4C)** yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda disgyblion, athrawon ac awdurdodau addysg leol i ystyried ym mha fodd y gall meddwl yn feirniadol a dadlau yn athronyddol gynorthwyo i ddatblygu'r gwerthoedd a amlinellir yn y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh).

Ariennir *P4C for PSE* gan Ymddiriedolaeth Esmée Fairbairn, ac fe'i hanelir at ddisgyblion 7-11 oed. Yn ogystal ag annog pobl ifainc i feddwl am eu gwerthoedd a'u hegwyddorion, rydym yn bwriadu ehangu gwybodaeth athrawon am P4C, a chreu cronfa o adnoddau ar gyfer P4C a fydd yn cynnwys cynlluniau gwersi yn arbennig ar gyfer ABCh.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae P4C wedi ennyn mwy a mwy o sylw ar draws y DG gyfan. Mae'n hyrwyddo trafodaeth bwrpasol ond dychmygus, a all godi ar sail darllen storïau neu gerddi, neu ar sail hanes disgybl am ryw brofiad yn yr ysgol. Y nod yw annog ymholiad athronyddol mewn ysgol, gan ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol y disgyblion a'u hymwybyddiaeth gymdeithasol.

Ar hyn o bryd mae CEWC-Cymru yn awyddus i sefydlu partneriaethau yng nghyswllt y prosiect hwn gydag ysgolion cynradd ac awdurdodau lleol ym mhob rhan o Gymru. Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn rhan o *P4C for PSE*, yna cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Swyddog Addysg, Martin Pollard.

GWAITH PELLACH YM MAES ABCh

Mae CEWC-Cymru yn un o blith nifer o gymdeithasau sydd â chynrychiolaeth ar **Rwydwaith ABCh Cymru Gyfan**, sydd yn cefnogi darpariaeth ABCh mewn addysg anffurfiol yn ogystal ag addysgu ffurfiol. Mae'n hyrwyddo arferion da, yn trefnu cynadleddau a seminarau, ac yn annog dinasyddiaeth weithredol ymhlith pobl ifainc. Anogir athrawon, ymgynghorwyr ABCh a sefydliadau eraill (yn arbennig yng ngogledd Cymru) i ymuno â'r Rhwydwaith. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Graham Davies o Gyngor Sir Caerdydd (029 2087 2752) neu Sue Rivers o Ysgol Uwchradd Bedwas (029 2085 9800).

Rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Sefydliad dros Foeseg Fyd-eang (Institute for Global Ethics), Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, CBAC ac eraill er mwyn trefnu **Cynhadledd Ddinasyddiaeth y Pedair Gwlad**, cynhadledd flynyddol a gynhelir eleni yng ngwesty'r Thistle Hotel, Caerdydd o 4 i 6 Tachwedd 2004. Dyma'r tro cyntaf y cynhelir y gynhadledd, sy'n cynnwys pob gwlad sy'n rhan o'r DG, yng Nghymru. I gael gwybod mwy, cysylltwch â'r Sefydliad dros Foeseg Fyd-eang ar 020 7486 1954.

GWOBRWYO HEDDWCH

Y wobr yn cael ei drosglwyddo i Ysgol Coedcae

Mae myfyrwyr yn Ysgol Coedcae yn dathlu wedi iddynt glywed mai y nhw yw enillwyr gwobr gyntaf **Yn Union! 2003-04**, cystadleuaeth CEWC-Cymru i hyrwyddo hawliau dynol. Dyma'r drydedd wobr a enillwyd gan brosiect Mala Heddwch yr ysgol yn Llanelli; mae'r prosiect yn defnyddio breichled symbolaidd i addysgu ynglŷn ag amrywiaeth crefyddol ac ethnig ac i frwydro yn erbyn rhagfarn. Enillwyd yr ail wobr gan Ysgol Uwchradd Bedwas (Caerffili), a'r drydedd gan Ysgol Uwchradd Gwernyfed (Aberhonddu).

Wedi'r gystadleuaeth, a noddwyd gan Y Gymdeithas Cyfraith Gyhoeddus a Hawliau Dynol yng Nghymru, dangosodd y tair ysgol arobryn eu gwaith mewn **Cynhadledd Yn Union!** ym Mhrifysgol Cymru, Abertawe ar 26 Mai. Roedd y digwyddiad yn cynnig cyfleon pellach i ddisgyblion 11 i 16 oed i ddysgu am hawliau dynol, gyda gweithdai a ddarparwyd gan y Comisiwn Etholiadol, Adran Gyfraith y Brifysgol ac Amnest Rhyngwladol.

Caiff gwobr Coedcae o £300 ei gwario ar lunio rhagor o'r breichledau Mala Heddwch, i ateb y galw uchel sydd amdanynt o Gymru a'r tu hwnt. Ewch at **www.peacemala.org.uk** i ddysgu mwy am eu prosiect.

POBL IFAINC YN TACLO'R DYFODOL

Bydd pobl yn honni yn aml bod pobl ifainc heddiw yn ddi-hid ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd yn y byd, ond roedd dau ddigwyddiad a gynhelid ym mis Chwefror yn llwyr wrth-ddweud y myth hwnnw. Yng ***nghynadleddau ieuenctid at fyd y dyfodol*** a drefnwyd gan CEWC-Cymru a Fforwm Ieuenctid Cymru ar Ddatblygu Cynaladwy (FfICDdC), gwelwyd dros 100 o bobl ifainc yn trafod materion byd fel tlodi, bioamrywiaeth a newid yn yr hinsawdd, ac yn cynnig cyfoeth o atebion posibl ac yn lleisio barn ar sawl mater. Rydym yn ddiolchgar i gyrff megis Cymorth Cristnogol, Canolfan y Dechnoleg Amgen a'r Ganolfan Addysg Fyd-eang, Bangor, am ddarparu gweithdai rhyngweithiol yn y digwyddiadau yn Abertawe a'r Rhyl.

Casglodd ynghyd FfICDdC y sylwadau a fynegwyd yn ystod y cynadleddau a chyflwyno crynodeb o'r rhain yn NRG4SD, y gynhadledd ryng-lywodraethol ar ddatblygu cynaladwy a gynhelid yng Nghaerdydd ym mis Mawrth: gan brofi y gall pobl ifainc gael dylanwad go iawn ar bynciau llosg y dydd.

YN FYR ...

Trefnodd CEWC-Cymru gynadleddau **Model y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaernarfon, Yr Wyddgrug, Cwmbrân a'r Barri** ym mis Mawrth yn ogystal â **Chyfarfod Model y Cynulliad Cenedlaethol dros Gymru 2004** yn Siambr y Cynulliad……bu'r Swyddog Addysg yn cynnal sesiwn **HMS** ar gyfer athrawon cynradd o Flaenau Gwent, a chyfrannu at ddatblygu **adnoddau addysg dinasyddiaeth** gan Sefydliad Prifysgol Cymru Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili……bu hefyd yn cynnal sesiynau yn yr ystafell ddosbarth ar **hawliau dynol** yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr ac Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt……

FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk www.cewc-cymru.org.uk

CD-ROM NEWYDD AR GAEL YN AWR

Mae Dweud eich **Dweud: Democratiaeth mewn Ysgolion a Thu Hwnt** yn adnodd CD-ROM newydd sbon danlli sydd ar gael yn awr gan CEWC-Cymru. Mae'n cynnwys cyngor ar sefydlu a rhedeg cynghorau ysgol, cynlluniau gwersi i gyflwyno disgyblion i ddemocratiaeth, ac arweiniad i'r rheiny sydd am arfer eu hawliau democrataidd. I archebu eich copi, anfonwch dâl o £13 (aelodau CEWC-Cymru) neu £18 (eraill), neu e-bostiwch sheiladavies@wcia.org.uk i fynnu CD-ROM ac anfoneb. Mae'r pris yn cynnwys costau cludiant.

Os am ddarllen rhagor am ddemocratiaeth yn yr ysgolion, ewch at **www.cewc-cymru.org.uk** a chliciwch ar *Dweud eich Dweud*.

CYMRU AR LWYFAN DADLAU'R BYD

Camodd pedwar dadleuydd ifanc ar lwyfan byd ym mis Chwefror, wrth gynrychioli Cymru ym **Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd** yn Stuttgart yn yr Almaen. Yn y rowndiau rhagbrofol, a oedd yn canolbwyntio ar bynciau fel bwydydd GM a lle crefydd yn ysgolion y wladwriaeth, enillodd Murtaza Hussain a Will Jefferson (Coleg yr Iwerydd, Llanilltud Fawr), Lewis Turner (Ysgol Gyfun Caerllion) a Harry Thomas (Coleg Crist, Aberhonddu) bedair o'u dadleuon. Oherwydd hyn roeddent ymhlith 16 olaf y gystadleuaeth, lle cawsant eu curo gan wlad Groeg, a aeth ymlaen at y rownd gynderfynol.

Mae CEWC-Cymru yn diolch i Helen Jarman am ei gwaith wrth hyfforddi'r tîm eleni. Rydym hefyd yn ddiolchgar i Awdurdod Datblygu Cymru, Robert Bosch Cyf., YMCA Casnewydd, Ensinger Cyf. a rhieni ac ysgolion y dadleuwyr, am gynorthwyo yn ariannol ac mewn ffyrdd eraill tuag at y daith.

Ym mis Mai, cynrychiolodd Harry a Lewis Gymru yn rownd derfynol **cystadleuaeth ddadlau ryngwladol i ysgolion yr English-Speaking Union** yn Llundain. Enillwyd y gystadleuaeth gan yr Alban.

AR Y GORWEL

PENCAMPWRIAETHAU DADLAU YSGOLION CYMRU BANC JULIAN HODGE 2004

Banc Julian Hodge

Hoffai eich myfyrwyr ddilyn llwyddiant prif ddadleuwyr Cymru eleni? Dyma eu cyfle. Mae'n bleser gennym wahodd ysgolion a cholegau i gystadlu ym 15fed gystadleuaeth flynyddol **Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru**, a gynhelir ym misoedd Hydref a Thachwedd. Bydd dros 50 o dimau'n cymryd rhan yn y Pencampwriaethau bob blwyddyn, ac mae'r wobr yn un ddelfrydol i ddarpar-ddadleuwyr: y cyfle i gymryd rhan ym Mhencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2005 yn Calgary, Canada. Am ragor o wybodaeth, neu i fynnu ffurflen gais, cysylltwch os gwelwch yn dda â Martin Pollard ar martinpollard@wcia.org.uk.

YMUNO Â'R PLANED

Bydd CEWC-Cymru yn mynd ar ben ffordd yn yr haf ar gyfer **Ymuno â'r Planed**, ein gŵyl gyntaf erioed i ddathlu dinasyddiaeth fyd-eang. Rhwng 6 a 9 Gorffennaf byddwn yn ymweld â phump fan yn ne a gogledd Cymru, gan drefnu gweithdai rhyngweithiol, digwyddiadau efelychu rhyngwladol a gweithgareddau cerdd, drama a dawns. Mae ein partneriaid yn cynnwys Small World Theatre, Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig, Cyswllt Affrica Cymru a Choleg Prifysgol Cymru, Casnewydd.

Mae lleoedd i gael o hyd ar gyfer rhai sesiynau, felly cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl os hoffech gymryd rhan. Anelir pob diwrnod at wahanol grŵp oedran, gydag un gweithdy o leiaf ar gael ar gyfer pob oedran rhwng 5 a 18 oed.

Carai CEWC-Cymru ddiolch i Fanc Julian Hodge a HSBC am eu nawdd, y naill at y Pencampwriaethau a'r llall at Ymuno â'r Planed.